

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 34/2015

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso effaith Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru): Cynllun Dadansoddi

Gwerthuso effaith Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru): Cynllun Dadansoddi

**Richard Glendinning a Sarah McHugh (Ymchwil Gymdeithasol GfK) a'r
Athro Roy Carr-Hill (Athrofa Addysg)**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3411

E-bost: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 30 Mehefin 2015

ISBN 978 1 4734 4124 8

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f.3.0, oni
nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Tabl cynnwys

1. Cefndir ac amcanion	2
2. Rhesymeg dros werthuso effaith	4
3. Meysydd gwerthuso sy'n bodoli eisoes	5
4. Cynllun dadansoddi	6
4.1 Data rheolaidd gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT)	7
4.2 Gwaith ymchwil gyda'r cyhoedd a staff y GIG	8
4.3 Asesu'r allbynnau o'r meysydd gwerthuso sy'n bodoli eisoes	9
5. Amserlen - cerrig milltir allweddol	10
Atodiad 1 - Prif newidynnau o ddiddordeb	11

Rhestr o dablau a ffigurau

Tablau

Tabl 1	Meysydd gwerthuso sy'n bodoli eisoes	4
Tabl 2	Amserlen	9
Tabl 3	Prif newidynnau o ddiddordeb	10

Ffigur

Ffigur 1	Cyfraddau rhoi organau gan yr ymadawedig	7
----------	--	---

1. Cefndir ac amcanion

Mae trawsblannu organau bellach yn un o'r triniaethau meddygol mwyaf llwyddiannus, gan fod modd i un person achub neu wella hyd at naw o fywydau drwy roi ei organau, a mwy o fywydau fyth drwy roi eu meinweoedd. Mae arolygon barn wedi dangos bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth ledled y DU o blaid rhoi organau, ond nid yw'r nifer sy'n cofrestru ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau yn adlewyrchu'r gefnogaeth eang hon. Problem arall yw mai ychydig iawn o bobl sy'n marw o dan amgylchiadau lle gallant ddod yn rhoddwyr organau cymwys¹ ac felly mae'n hynod bwysig gwneud y gorau o'r cyfle i ddod o hyd i roddwyr addas drwy annog cymaint o bobl â phosibl i nodi eu penderfyniad, naill ai drwy ymuno â'r Gofrestr neu drwy wneud eu penderfyniad yn amlwg i'w teulu a'u ffrindiau.

O dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 ar gyfer Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, a Deddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006, er mwyn defnyddio organau mewn trawsblaniad, mae'n rhaid i'r unigolyn dan sylw roi caniatâd ar sail 'optio i mewn'. Mae'r Deddfau yn cymryd yn ganiataol nad yw unigolyn yn dymuno rhoi ei organau os nad yw wedi nodi ei benderfyniad i wneud hynny yn glir, er enghraifft drwy lofnodi'r Gofrestr Rhoddwyr Organau neu gario cerdyn rhoddwr.

Unwaith bod caniatâd unigolyn i optio i mewn wedi'i gadarnhau, caiff perthnasau eu hannog i gefnogi penderfyniad yr ymadawedig. Os nad oes cofnod o benderfyniad yr ymadawedig, gall ei deulu neu unigolyn cymwys arall gytuno neu anghytuno i ganiatáu trawsblaniad.

Er mwyn cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu, penderfynodd Llywodraeth Cymru newid y system rhoi organau bresennol. Pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, sy'n amlinellu sut y dylid rhoi caniatâd i roi organau a meinwe ar ôl marwolaeth yng Nghymru. Daw'r gyfraith hon i rym yn llawn ar 1 Rhagfyr 2015, yn dilyn ymgyrch gyfathrebu dros ddwy flynedd i godi ymwybyddiaeth o'r gyfraith. Tan hynny, mae'r system optio i mewn yn dal yn weithredol yng Nghymru, fel gweddill y DU.

Prif nod Deddf 2013 yw cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu drwy newid y ffordd y caiff cydsyniad i roi organau ei nodi. Mae'n nodi bod rhoi organau yn gyfreithlon yng Nghymru pan fydd cydsyniad diamwys neu gydsyniad tybiedig wedi'i roi. Bydd yn cyflwyno system 'optio allan feddal', sy'n cyferbynnu â'r system optio i mewn sydd ar waith ar hyn o bryd ledled y DU. O dan y system hon, bydd tri dewis ar gael, sy'n galluogi pobl i:

1. Optio i mewn - cofrestru dymuniad i roi organau; neu
2. Optio allan - cofrestru dymuniad i BEIDIO â rhoi organau; neu

¹ Dim ond tua un y cant o bobl yn y DU sy'n marw o dan amgylchiadau lle gallant ddod yn rhoddwyr organau yn ôl NHSBT. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod 5,490 o roddwyr organau cymwys allan o tua 570,000 o farwolaethau yn y DU yn 2013-14 (adroddiad Gweithgarwch Trawsblannu 2013-14 Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG).

3. Gwneud dim - lle caiff unigolyn ei ystyried yn rhywun nad yw'n gwrthwynebu rhoi organau - gelwir hyn yn 'gydsyniad tybiedig'.

Mae'r newid i'r system cydsynio i roi organau yn sylweddol ac felly mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn deall yn llawn yr hyn mae'r newidiadau hyn yn ei olygu, yn ogystal â'r penderfyniadau y gallant eu gwneud. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch hysbysebu hirdymor i godi ymwybyddiaeth o'r newid i'r system rhoi organau a'r dewisiadau fydd ar gael i bobl.

Yn seiliedig ar adolygiad systematig o dystiolaeth ryngwladol², mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd newid i system optio allan yn arwain at gynnydd yn nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu. Mae mwyafrif clir o'r cyhoedd yng Nghymru o blaid y newid³, er mai cyfran weddol isel sydd ar y Gofrestr Rhoi Organau mewn gwirionedd (33 y cant yng Nghymru, yn debyg i weddill y DU).

O dan system 'optio allan' neu 'gysyniad tybiedig', tybir bod pob unigolyn sy'n byw yng Nghymru (sy'n 18 oed a throsodd - ni fydd y gyfraith yn berthnasol i blant), sydd â'r gallu meddyliol gofynnol, wedi cydsynio i roi organau, oni bai ei fod wedi cymryd y cam bwriadol o optio allan.

Mae adolygiad systematig rhyngwladol a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerefrog yn 2008 (Rithalia et al., 2008)⁴ sy'n ystyried effaith deddfwriaeth optio allan neu gydsyniad tybiedig ar gyfraddau rhoi organau, yn ogystal ag adolygiad Llywodraeth Cymru, yn awgrymu bod cysylltiad rhwng deddfwriaeth cydsyniad tybiedig a chyfraddau rhoi organau uwch. Er enghraifft, roedd Bilgel (2012)⁵, wedi cynnwys data o 24 o wledydd dros y cyfnod 1993 - 2006 ac amcangyfrifodd fod gan y gwledydd sydd â deddfwriaeth cydsyniad tybiedig gyfraddau rhoi organau sydd 13-18 y cant yn uwch ar gyfartaledd na gwledydd sydd â deddfwriaeth cydsyniad deallus.

Yn ogystal â hyn, mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod pobl sy'n byw mewn gwlad 'cydsyniad tybiedig' yn fwy tebygol o fod yn barod i roi nid yn unig eu horganau eu hunain ond organau perthynas hefyd. Cyfeiriwyd at hyn yn nadansoddiad Mossialos et al (2008)⁶ o ddata arolwg ar lefel unigolyn o 15 o wledydd Ewropeaidd. Canfuwyd bod unigolion sy'n byw mewn gwledydd sydd â chydsyniad tybiedig rhwng 17 a 29 y cant yn fwy tebygol o nodi parodrwydd i roi eu horganau eu hunain, a 27-56 y cant yn fwy tebygol o nodi

²Ar gael yma: <http://gov.wales/statistics-and-research/opt-out-systems-of-organ-donation/?lang=cy>

³Ym mis Tachwedd 2014, roedd 64 y cant o oedolion yng Nghymru o blaid newid i system optio allan, tra bod 17 y cant yn erbyn y newid (<http://gov.wales/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=cy>)

⁴ Rithalia et al (2008). *The potential impact of an opt out system for organ donation in the UK*. Yr Adran Iechyd: Llundain.

⁵ Bilgel (2012). 'The impact of presumed consent laws and institutions on deceased organ donation'. *European Journal of Health Economics* 13(1): 29-38.

⁶ Mossialos et al (2008). 'Does organ donation legislation affect individuals' willingness to donate their own or their relative's organs? Evidence from European Union survey data'. *BMC Health Services Research* 8:48.

y byddant yn barod i gydsynio i roi organau eu perthnasau, o'u cymharu ag unigolion sy'n byw mewn gwledydd sydd â chydsyniad diamwys.

Bydd y system arfaethedig yng Nghymru system optio allan 'feddal' yn hytrach nag un 'galed'. Mewn system optio allan galed, ni fyddai meddygon yn ymgynghori â'r teulu ynglŷn â rhoi organau os byddai'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad diamwys neu dybiedig. Mewn system optio allan feddal, mae'r teuluoedd yn rhan o drafodaethau ynglŷn â rhoi organau, a hynny er mwyn rhoi gwybodaeth am breswyliaeth yr unigolyn a'i hanes cymdeithasol a meddygol, ac er mwyn rhoi cyfle iddynt ddweud os oeddent yn gwybod bod yr ymadawedig yn gwrthwynebu rhoi organau.

Y prif wahaniaeth i deuluoedd, o'i gymharu â'r system gyfredol yw, pan na fydd unrhyw benderfyniad wedi'i gofnodi, y byddant yn gwybod y gallai eu perthynas fod wedi optio allan ond na wnaeth ddewis gwneud hynny. Ystyrir mai hyn fydd y sbardun i roi mwy o organau.

Mae'r newid i'r system rhoi organau yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i strategaeth y DU gyfan, sef *Trawsblannu Organau: Ymlaen at 2020*⁷ - strategaeth ar y cyd rhwng NHSBT a gweinyddwyr iechyd pedair gwlad y DU sy'n amlinellu targedau ar gyfer gwella cyfraddau rhoi organau. □

2. Rhesymeg dros werthuso effaith

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fonitro a gwerthuso effaith y ddeddfwriaeth, gan ddweud: □

"Gan na ellir bod yn fanwl gywir ynglŷn â'r newidiadau i'r cyfraddau rhoi organau a allai ddigwydd o ganlyniad i gyflwyno system optio allan, mae'n hanfodol bod effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael ei monitro a'i gwerthuso. Yn sgil hynny, byddai'n ddefnyddiol iawn cymharu'r newidiadau yng nghyfraddau rhoi organau Cymru â'r rhai yn Lloegr, gan y bydd y system optio i mewn yn aros yn Lloegr, hyd y gellir rhagweld."

Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) : Memorandwm Esboniadol (2012, t.42)

Gellir gweld effaith y Ddeddf mewn unrhyw newid yn nifer y rhoddwyr organau ymadawedig ar ôl 1 Rhagfyr 2015 (ac efallai cyn y dyddiad hwn wrth i wybodaeth am y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ehangu). Fodd bynnag, mae'r cyfnod o amser sydd ar gael yn gymharol fyr - ni all mwy na chwe chwarter lawn o ddata gael ei defnyddio i werthuso'r effaith - ac mae'n debygol o hyd y bydd y niferoedd ar gyfer Cymru yn eithaf isel ac felly'n destun anwadalrwydd (gweler Ffigur 1 i weld tueddiadau dros amser).

Hefyd, bydd angen i'r gwerthusiad gymharu'r tueddiadau o ran rhoi organau yng Nghymru â'r tueddiadau ledled y DU, lle mae ymdrechion gwahanol yn cael eu gwneud i gynyddu lefel rhoi organau. Er y bydd y data a gesglir gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT) yn rhan ganolog o'r

⁷ Ar gael yma: <http://www.nhsbt.nhs.uk/to2020/>

astudiaeth, caiff effaith ei mesur hefyd drwy archwilio tueddiadau mewn agweddau ehangach yng Nghymru, gan ddefnyddio canlyniadau o arolygon rheolaidd o'r boblogaeth sy'n oedolion yn ogystal â gwaith ymchwil ymhlith staff y GIG.

3. Meysydd gwerthuso sy'n bodoli eisoes

Er mwyn gwerthuso gweithrediad ac effaith y Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nifer o brosiectau ymchwil. Cynhaliwyd arolwg sylfaenol gyda staff y GIG er mwyn cymharu lefelau ymwybyddiaeth a gwybodaeth dros amser, ac mae sawl cam o'r arolwg o agweddau'r cyhoedd wedi eu cwblhau erbyn hyn. Darperir manylion pellach yn y tabl isod.

Tabl 1: Meysydd gwerthuso sy'n bodoli eisoes	
Meysydd gwerthuso	Dyddiadau
<i>Arolwg o agweddau'r cyhoedd yng Nghymru at roi organau</i>	Arolwg sylfaenol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012. Caiff ei ailadrodd yn rheolaidd hyd at fis Mehefin 2016.
<i>Ystyried barn y cyhoedd yng Nghymru (ymchwil ansoddol)</i>	Arolwg sylfaenol a gyhoeddwyd yn 2014 Bwriedir cynnal ail gam ar ôl rhoi'r Ddeddf ar waith
<i>Ymchwilio i farm Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol ar roi organau yng Nghymru (ansoddol)</i>	Cyhoeddwyd y cam cyntaf ym mis Awst 2013. Mae camau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer y cyfnod cyn i'r Ddeddf ddod i rym a'r cyfnod wedyn.
<i>Mesur agweddau staff y GIG ehangach yng Nghymru</i>	Arolwg sylfaenol a gyhoeddwyd yn haf 2014. Cynhelir yr ail gam yn 2016.

Mae gan bob un o'r gweithgareddau gwerthuso hyn eu prosesau adrodd eu hunain, ond mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad cyffredinol o'r effaith er mwyn dwyn ynghyd y dystiolaeth o'r pedwar maes a ddangosir uchod a chynnal dadansoddiad o ddata trawsblannu arferol gan NHSBT (i'r DU gyfan).

Prif nod y gwerthusiad hwn yw asesu gweithrediad y Ddeddf a'r effaith mae'n ei chael ar gyfraddau rhoi organau yng Nghymru. Mae amcanion penodol o ran meysydd unigol y broses:

- Defnyddio data rheolaidd i fonitro newidiadau mewn cyfraddau rhoi organau a chydsynio dros amser (mesurau canlyniadau);
- Asesu effeithiolrwydd ac effaith yr ymgyrch gyfathrebu ar agweddau'r cyhoedd tuag at system feddal o optio allan o roi organau, a'u dealltwriaeth ohoni;
- Deall ymddygiad presennol unigolion o ran rhoi organau, a'r effaith a gaiff symud i system feddal o optio allan (gan gynnwys p'un a yw'r unigolyn yn trafod ei ddymuniadau gyda'r teulu);
- Asesu gweithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth ar waith Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol, gan gynnwys adborth ar hyfforddiant a materion sy'n ymwneud â chydsyniad y teulu;
- Monitro ymwybyddiaeth ac agweddau staff y GIG sy'n rhan o'r broses atgyfeirio tuag at y gyfraith newydd, ei gweithrediad a'i heffaith.

Caiff yr holl dystiolaeth hon ei chyfuno a'i chrynhai mewn adroddiad cyffredinol terfynol a gaiff ei gyhoeddi ar ddiwedd 2017. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys awgrymiadau am ymchwil bellach a sut y gellid gwerthuso effaith barhaus y Ddeddf yn y tymor hwy.

Mae'r Cynllun Dadansoddi a amlinellir yn y ddogfen hon yn rhan ganolog o'r broses o werthuso effaith. Mae'n cael ei gyhoeddi er mwyn darparu cynllun tryloyw o'r data a ddefnyddir a'r dulliau dadansoddi sy'n cael eu mabwysiadu er mwyn asesu effaith gychwynnol y Ddeddf, yn y cyd-destun fod gan Gymru system gydsynio wahanol i weddill y DU. Os bydd newidiadau i ddeunyddiau yn ystod y gwerthusiad, caiff fersiwn newydd o'r cynllun ei gyhoeddi.

4. Cynllun dadansoddi

Mae'r adran hon yn nodi'r cynllun dadansoddi cychwynnol er mwyn mesur effaith y Ddeddf. Rhestrir y prif newidynnau o ddiddordeb ar y cam gwerthuso hwn yn Atodiad 1.

O ystyried y meysydd gwerthuso amrywiol sy'n bodoli eisoes a'r prif anhawster i briodoli unrhyw newidiadau mewn cyfraddau rhoi organau i effaith y Ddeddf, bydd y gwerthusiad yn ystyried nifer o ddulliau dadansoddi. Un opsiwn yw dilyn argymhellion dadansoddi cyfraniad, dull o gasglu beth yw'r achosiaeth debygol mewn gwerthusiadau o raglenni gwirioneddol.

Mae dadansoddi cyfraniad wedi cael ei ddisgrifio fel a ganlyn (dyfyniad ar gael yn Saesneg yn unig):

“[...] an approach designed to reduce uncertainty about the contribution the intervention is making to the observed results, through an increased understanding of why the observed results have [or have not] occurred [...] and the roles played by the intervention and other internal and external factors.”

Better Evaluation⁸

Bydd y dadansoddiad hwn yn ceisio asesu pwysigrwydd cymharol unrhyw newid yn agweddau'r cyhoedd tuag at optio allan (yn hytrach nag optio i mewn) ac unrhyw newidiadau yn agweddau ac arferion staff nyrsio a meddygol i unrhyw newid mewn canlyniadau (h.y. lefelau rhoi organau). Caiff y dadansoddiad hwn ei lywio gan y cyfernodau yn y dadansoddiad statudol o newidiadau a thueddiadau yn y data ar roddwyr organau yng Nghymru a thrwy gymharu tueddiadau yn y data yn y DU ac yng Nghymru.

Gallai dull arall gynnwys datblygu fframwaith dadansoddol unigol a fyddai'n rhestru'r prif gwestiynau gwerthuso (er enghraifft, a yw'r rhaglen yn cynyddu lefelau rhoi organau?) ac yna lenwi'r fframwaith â data o'r meysydd gwerthuso gwahanol. Wedyn, byddai'r fframwaith yn cael ei ddadansoddi er mwyn nodi lle mae tystiolaeth gryfach neu wannach er mwyn cadarnhau, er enghraifft, newidiadau mewn lefelau rhoi organau. Pan fo'r data yn cyfeirio at

⁸ Ar gael yma: http://betterevaluation.org/plan/approach/contribution_analysis

ganlyniadau sydd yr un fath neu'n debyg, gallwn gasglu bod cysylltiadau cymhellol ond nid achosiaeth.


Caiff yr is-adrannau canlynol o'r dadansoddiad eu trafod yn eu tro:

- Dadansoddiad o ddata rheolaidd gan NHSBT
- Data cyfochrog ar agweddau'r cyhoedd o arolygon rheolaidd yng Nghymru
- Cyfuno tystiolaeth o feysydd gwerthuso eraill

4.1 Data rheolaidd gan wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Mae Ffigur 1 (isod) yn dangos y duedd o ran rhoi organau dros y cyfnod sy'n arwain at ddechrau'r broses werthuso yng Nghymru. Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod cyfraddau rhoi organau gan yr ymadawedig yn cynyddu'n gyflymach yng Nghymru rhwng 2010 a 2012, ond ychydig iawn o wahaniaeth sydd i'w weld rhwng y data ar gyfer Cymru a'r data ar gyfer y DU gyfan dros y cyfnod a ddangosir. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2013/14 yn dangos bod 19.5 o roddwyr organau ymadawedig fesul miliwn o bobl (PMP), o'u cymharu â 20.6 ar gyfer y DU gyfan. Bydd y gwerthusiad yn parhau i fonitro'r tueddiadau yng Nghymru a'u cymharu â phatrymau yng ngweddill y DU a hefyd gyda gwledydd neu ranbarthau unigol sydd â phroffiliau demograffig lled debyg.

Ffigur 1: Cyfraddau rhoi organau gan yr ymadawedig 2000/01 i 2013/14



Ffynhonnell data: NHSBT

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys rhoddwyr organau ar ôl marwolaeth oherwydd cylchrediad y gwaed a rhoddwyr organau ar ôl marwolaeth yr ymennydd. Nid yw'n cynnwys rhoddwyr organau byw

Gan fod y data dienw gan NHSBT ar gael i'r DU gyfan, bydd y gwerthuso effaith yn defnyddio dull gyfateb sgorau tueddiad drwy ddatblygu hafaliad amcangyfrifo gan ddefnyddio'r holl ddata nad ydynt yn cynnwys Cymru ar gyfer y ddau brif god diagnostig - rhoi organau ar ôl marwolaeth yr ymennydd a rhoi organau ar ôl marwolaeth oherwydd cylchrediad y gwaed fel

newidyddion dibynnol, ac yna caiff yr hafaliad hwnnw ei gymhwyso at nodweddion cyfatebol ymhlith poblogaeth Cymru. Gan ddibynnu ar y nodweddion a dyraniad y data hyn, gallai hyn fod yn seiliedig ar atchweliad aml-amrywedd (rhesymegol) syml neu gynnwys modelau aml-lefel sydd ag effeithiau ar hap, er enghraifft pan gaiff gwerth sawl blwyddyn o ddata eu hystyried.

Efallai y bydd yn briodol cynnal dadansoddiadau ar wahân ar gyfer y pum mlynedd ddiwethaf a mwy yn yr ystyr y gall nodweddion ymateb grwpiau demograffig-gymdeithasol fod wedi newid yn sylweddol yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU. Gyda diweddariadau cyson gan NHSBT, bydd yn rhaid i'r gwerthusiad gael mynediad at hyd at chwe chwarter llawn o ddata rheolaidd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym fel bod y ddwy dechneg, sef gwahaniaeth mewn gwahaniaeth a dadansoddi diffyg parhad atchweliad, yn fwy pwerus bellach. Bydd y dadansoddiad hefyd yn asesu p'un a oes unrhyw arwyddion o newid mewn tueddiadau rhoi organau yn y cyfnod cyn cyflwyno'r system gydsynio newydd.

4.2 Gwaith ymchwil gyda'r cyhoedd a staff y GIG

Data Cyfochrog: Ar gyfer Cymru, mae tystiolaeth gyfochrog wedi'i gasglu o'r canlynol (a chaiff rhagor ei gasglu):

- Camau amrywiol yr arolwg o agweddau'r cyhoedd
- Archwilio barn fanwl y cyhoedd drwy ymchwil ansoddol
- Ymchwilio i safbwyntiau Nyrsys Arbenigol ac Arweinwyr Clinigol
- Mesur agweddau ehangach staff y GIG

Nid yw cwmpas y gwerthusiad hwn yn cynnwys atgynhyrchu'r allbynnau hyn ar draws gweddill y DU, er y byddwn yn defnyddio unrhyw ddata cyhoeddedig eraill a fydd yn llywio'r gwerthusiad. Fodd bynnag, er mwyn darparu rhywfaint o dystiolaeth drawsffeithiol ar agweddau'r cyhoedd, byddwn yn defnyddio Omnibws Lleoliadau ar Hap GfK NOP (gyda thua 1,800 o gyfweliadau o'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon) er mwyn cynnwys cyfres fer o gwestiynau sy'n cyd-fynd ag eitemau allweddol yn yr Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd (i'w dewis ar ôl archwilio'r canlyniadau ac unrhyw dueddiadau newydd) a fyddai'n darparu data cyfatebol nodi ar gyfer gweddill y DU. Mae enghreifftiau posibl o gwestiynau i'r DU gyfan yn cynnwys mesur:

- Agweddau tuag at gyflwyno system optio allan yng ngweddill y DU (o blaid/yn erbyn/angen mwy o wybodaeth i benderfynu)
- Ymddygiad a ragwelir o dan system optio allan (optio allan/optio i mewn/gwneud dim)
- P'un a yw ymatebwyr wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau gyda'u teuluoedd

O ystyried y dulliau casglu data tebyg ar gyfer yr Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd yng Nghymru a'r Omnibws Lleoliadau ar Hap yng ngweddill y DU (wyneb yn wyneb, yn y cartref), rydym ar dir cadarn o ran ei ddefnyddio i ddarparu gwell cyd-destun ar gyfer y canfyddiadau. Caiff data'r DU eu casglu ar yr un pryd â'r cam olaf o waith maes gyda'r cyhoedd yng Nghymru (wedi'i gynllunio ar gyfer Gorffennaf 2016 ar hyn o bryd).

4.3 Asesu'r allbynnau o'r meysydd gwerthuso sy'n bodoli eisoes

Fel y nodwyd, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu pedwar maes gwerthuso tystiolaeth a chaiff canfyddiadau'r gweithgareddau hyn eu crisialu yn yr adroddiad gwerthuso effaith cyffredinol. I ryw raddau bydd y broses hon yn ailadrodd ac yn crynhoi rhywfaint o gynnwys yr allbynnau annibynnol gwreiddiol ond bydd y gwerthusiad cyffredinol yn ceisio cysylltu canfyddiadau ar draws y meysydd amrywiol o ran themâu neu ddamcaniaethau. Er enghraifft, disgwylir y bydd y dystiolaeth ymchwil ansoddol (yn enwedig gydag Arweinwyr Clinigol a Nyrsys Arbenigol) yn amlygu newidiadau ymarferol, gan gynnwys sgysiau â theuluoedd.

Byddem yn awyddus i gynnal dadansoddiad pellach o ddata'r arolwg, yn enwedig arolygon o'r cyhoedd, gan ei bod yn ffynhonnell fawr o dystiolaeth ac yn rhan allweddol o weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus.

Mae rhai arwyddion cynnar o dueddiadau yn y data o'r arolwg o'r cyhoedd, megis y cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith. Fodd bynnag, ymddengys fod llawer o'r newid barn wedi digwydd rhwng 2012 a 2013 yn hytrach nag yn ystod 2014 ac rydym yn ymwybodol y gall cyfnodau gwastad ddigwydd yn ystod camau olrhain y rhan hon o'r gwerthusiad.

Dylai'r data ar agweddau'r cyhoedd roi cyfle am ddadansoddiadau ystadegol eilaidd a phroffilio mwy manwl drwy gyfuno data o gamau lle mae cyfnodau gwastad er mwyn hybu maint y sampl i'w dadansoddi. Yn dibynnu ar y setiau o gwestiynau sy'n cael eu datblygu, gellid hefyd ddefnyddio technegau segmenteiddio er mwyn profilio grwpiau gwahanol o'r boblogaeth (er enghraifft, y rhai sy'n gadarn yn erbyn hyd at y rhai sy'n ei gefnogi'n ofalus a'r rhai sy'n frwdfrydig). Os yw'r dadansoddiadau gwerthuso newydd yn awgrymu meysydd holi newydd, efallai y gallai'r gwerthuso effaith hefyd argymhell addasu cwrpas y data olrhain, drwy ychwanegu deunydd newydd i un o gamau arolwg o'r cyhoedd a gynlluniwyd o bosibl.

Byddai dau gam o arolygon gyda staff y GIG yng Nghymru hefyd yn bwydo'i mewn i' adroddiadau o werthuso. Mae un cam wedi'i gwblhau a bydd cynnwys yr holiadur ar gyfer yr ail gam yn llywio'r gwerthusiad cyffredinol yn ogystal â'r maes unigol hwn.

Nod y gwerthusiad yw darparu'r dull ymarferol mwyaf cadarn o fesur effaith y Ddeddf ond rydym yn ymwybodol o'r anawsterau posibl wrth wneud hynny, megis cyflwyno optio allan yng Nghymru yn ystod cyfnod o welliant cyson yng nghyfraddau rhoi organau'r DU gyfan yn dilyn argymhellion gweithlu rhoi organau 2008 a dylanwad parhaus aelodau'r teulu dros y broses o roi

organau. Mae hefyd yn debygol y bydd amrywiaeth o ymyriadau proffil is mewn rhannau eraill o'r DU a all effeithio ar gyfraddau rhoi organau, er enghraifft, mewn rhannau o Loegr.

5. Amserlen

Mae Tabl 2 (isod) yn dangos y cerrig milltir allweddol ar gyfer casglu, dadansoddi a chyhoeddi data er mwyn gwerthuso effaith.

Tabl 2: Amserlen	
Cerrig milltir	Dyddiadau
Cyhoeddi'r Cynllun Dadansoddi	Mehefin 2015
Arolygon parhaus ymhlith y cyhoedd	Hyd at haf 2016
Camau terfynol ymchwil ansoddol ac arolwg staff y GIG	Gwanwyn 2016
Cam terfynol yr arolwg chwarterol o'r cyhoedd yng Nghymru	Mehefin 2016
Arolwg omnibws y DU gyfan	Mehefin 2016
Arolygon parhaus o dystiolaeth werthuso a data rheolaidd gan NHSBT	Hyd at wanwyn 2017
Dadansoddiad terfynol o'r data rheolaidd	Haf 2017
Cyflwyno'r adroddiad ar werthuso effaith y cytunwyd arno a'r crynodeb gweithredol	Medi 2017
Cyflwyno'r adroddiad a'r crynodeb	Erbyn diwedd 2017

Atodiad 1: Prif newidynnau o ddiddordeb

Bydd y dadansoddiad ar gyfer y gwerthusiad o effaith yn dilyn y dulliau a amlinellwyd eisoes yn y ddogfen hon ac, er mwyn sicrhau tryloywder parhaus, caiff manylion pellach eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru wrth i'r data gael eu hasesu. Ar hyn o bryd, rydym wedi rhestru rhai o'r newidynnau allweddol a gaiff eu harchwilio er mwyn asesu effaith y Ddeddf, a chaiff hyn ei ymestyn maes o law, gan gynnwys rhagor o'r technegau a ddefnyddir wrth werthuso, yn enwedig o ran dadansoddi data NHSBT.

Bydd y newidynnau o anghenraid yn gyfyngedig i'r rhai a gwmpesir gan y meysydd gwerthuso sy'n bodoli eisoes, ond gallant gael eu hategu gan ddata eraill, megis arolygon a gynhelir mewn lleoliadau eraill yn y DU. Caiff data eu hystyried hefyd o ran themâu (ymwybyddiaeth er enghraifft) ar draws y meysydd gwahanol, a bydd hefyd yn ystyried y gydberthynas rhwng ffactorau (er enghraifft codi ymwybyddiaeth a gwybodaeth yn arwain at newid agweddau a chynnydd posibl yn y lefelau rhoi organau gwirioneddol).

Tabl 3: Prif newidynnau o ddiddordeb

DATA RHEOLAIDD (pob newidyn)
Rhyw
Oedran
Cod post/Bwrdeistref
Cymru neu du hwnt
Chwarter y Rhodd
Achos Marwolaeth
Rhoddwr ar ôl marwolaeth yr ymennydd (DBD)
Rhoddwr ar ôl marwolaeth oherwydd cylchrediad y gwaed (DCD)
AGWEDDAU STAFF (newidynnau dewisol)
Ymwybyddiaeth o newid
Cwmpas gwybodaeth
Lefelau o blaid neu yn erbyn
Agweddau tuag at y system newydd
Rôl y teulu
Effaith ar ei swydd ei hun
Ateb cwestiynau am y system newydd
Demograffeg (er mwyn gwahaniaethu barn)
AGWEDDAU'R CYHOEDD YNG NGHYMRU
Ymwybyddiaeth o newid
Lefelau o blaid neu yn erbyn
Dibenion o dan y system newydd
Sgyrsiau gyda'r teulu
Demograffeg (er mwyn gwahaniaethu barn)